

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

Adroddiad Interim yr Ymchwiliad i Ddyfodol y  
Polisi Cydlyniant

Rhagfyr 2009



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:  
**[www.cynulliadcymru.org](http://www.cynulliadcymru.org)**

I gael rhagor o gopiau caled o'r ddogfen hon cysylltwch â:  
Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allano  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

Ffôn: 029 2082 8146  
Ffacs: 029 2089 8021  
E-bost: [Europe.comm@wales.gsi.gov.uk](mailto:Europe.comm@wales.gsi.gov.uk)

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

Adroddiad Interim yr Ymchwiliad i Ddyfodol y  
Polisi Cydlyniant

Rhagfyr 2009



## Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

Caiff y Pwyllgor drafod unrhyw faterion sy'n berthnasol i'r ffordd y mae'r Prif Weinidog, Gweinidogion Cymru, y Cwnsler Cyffredinol neu'r Cynulliad yn arfer eu swyddogaethau o ran yr Undeb Ewropeaidd neu faterion allanol, ac adrodd ar y materion hynny.

### Pwerau

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 26 Mehefin 2007. Nodir ei bwerau yn Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn arbennig Rheol Sefydlog 18.1. Mae'r rhain i'w cael yn [www.cynulliadceneldaethol.org](http://www.cynulliadceneldaethol.org)

### Aelodau'r Pwyllgor

<i>Aelod y Pwyllgor</i>	<i>Plaid</i>	<i>Etholaeth neu ranbarth</i>
Sandy Mewies (Cadeirydd)	Llafur	Delyn
Nick Bourne	Plaid Geidwadol Cymru	Canolbarth a Gorllewin Cymru
Jeff Cuthbert	Llafur	Caerffili
Mike German	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru	Gorllewin De Cymru
Rhodri Glyn Thomas	Plaid Cymru	Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr

# Cynnwys

---

<b>Rhagair y Cadeirydd</b> .....	<b>4</b>
<b>Argymhellion y Pwyllgor</b> .....	<b>5</b>
Casgliadau Allweddol.....	5
Argymhellion .....	6
Camau gweithredu ar gyfer y Pwyllgor .....	7
<b>1. Cefndir</b> .....	<b>8</b>
<b>2. Tystiolaeth i'r ymchwiliad</b> .....	<b>11</b>
<b>3. Y prif faterion sy'n dod i'r amlwg</b> .....	<b>12</b>
3.1 Amseru: trafodaethau ym Mrwsel; llais cryf i Gymru.....	12
3.2 Effaith yr argyfwng ariannol ac economaidd.....	13
3.3 Y rhesymeg ar gyfer polisi yr UE yn y dyfodol; gwrthod ailwladoli .....	14
3.4 Llywodraethu a Strategaeth Lisbon .....	17
3.5 Arian trosiannol i Gymru.....	17
3.6 Ffurf y polisi yn y dyfodol .....	19
3.7 Cydweithrediad y tiriogaethau .....	20
3.8 Cyfnodau cyfeirio cynnyrch mewnwladol crynswth a meini prawf eraill .....	21
3.9 Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Chronfa Gymdeithasol Ewrop fel rhan o bolisi cydlyniant yr UE .....	22
3.10 Blaenoriaethau'r polisi yn y dyfodol .....	22
3.11 Cynhwysiant cymdeithasol.....	23
3.12 Yr agenda symleiddio .....	25
<b>Tystion</b> .....	<b>27</b>
<b>Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig</b> .....	<b>30</b>

## Rhagair y Cadeirydd

---

Dyma drydydd adroddiad ymchwiliad y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol yn y trydydd Cynulliad. O dan y polisi cydlyniant, mae gan Gymru hawl ar hyn o bryd i wneud cais am tua £2 biliwn o arian yr UE ar gyfer y cyfnod 2007-2013. Nid oes sicrwydd o bellffordd y bydd Cymru, ar ôl 2013, yn parhau i gael yr arian hwn gan yr UE, a fu mor hanfodol ar gyfer cefnogi economi a phobl Cymru. Mae'r modd y bydd Cymru yn trosglwyddo i sefyllfa ariannol newydd yn fater o bwys. Mewn Undeb Ewropeaidd sydd â 27 o Aelod Wladwriaethau, mae'r Pwyllgor am chwarae rhan weithredol yn y ddadl Ewropeaidd ar ddyfodol cyllid yr UE ar ôl 2013.

Mae'r adroddiad interim hwn yn nodi canfyddiadau'r Pwyllgor hyd yn hyn - bydd ein hymchwiliad yn parhau wrth i'r polisi ddatblygu yn 2010 a thu hwnt i hynny. Bydd nifer o ffactorau yn dylanwadu ar y polisi cydlyniant yn y dyfodol, gan gynnwys trafodaethau ar gyllid yr UE yn y dyfodol a'r effaith ar yr argyfwng economaidd ac ariannol diweddar. Drwy gyflwyno ein canfyddiadau yn awr, rydym yn ceisio sicrhau bod Cymru, yn haeddiannol, yn chwarae rhan allweddol yn natblygiad polisi yn y dyfodol, a bod lleisiau rhanddeiliaid o Gymru yn cael eu clywed.

Mae'r Pwyllgor wedi nodi saith o gasgliadau allweddol ac wedi gwneud saith o argymhellion - mae chwech ohonynt ar gyfer Llywodraeth Cymru ac mae un ar gyfer y Comisiwn Ewropeaidd.

Rydym wedi cael tystiolaeth gan y Comisiwn Ewropeaidd, Llywodraeth Cymru, rhanddeiliaid o Gymru, a thystion sy'n ymwneud ag amrywiaeth o rwydweithiau Ewropeaidd ffurfiol ac anffurfiol. Rwyf yn ddiolchgar i bawb a rannodd eu sylwadau a'u barn, a bydd y Pwyllgor yn parhau i chwilio am ffyrdd i ymgysylltu â phobl ar y mater hwn. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid o Gymru i gydweithio'n rhagweithiol i gynrychioli barn Cymru ar lwyfan Ewrop. Ein bwriad yw y bydd yr adroddiad hwn yn cael ei ystyried nid yn unig yng Nghymru, ond gan Lywodraeth y DU wrth iddi arwain ar y trafodaethau ym Mrwsel, gan sefydliadau Ewropeaidd, a phawb sy'n rhan o'r ddadl bwysig hon ar bolisi yn Aelod Wladwriaethau a rhanbarthau eraill yr Undeb Ewropeaidd.

Sandy Mewies AC  
Cadeirydd y Pwyllgor

## Argymhellion y Pwyllgor

---

Rhestrir casgliadau ac argymhellion allweddol y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru isod, yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr adroddiad. Cyfeiriwch at dudalennau perthnasol yr adroddiad i weld y dystiolaeth ategol.

### Casgliadau Allweddol

**Casgliad allweddol 1:** Mae'r Pwyllgor yn pwysleisio gwerth rhwydweithio ar lefel Ewropeaidd gyda rhanbarthau sy'n rhannu'r un meddylfryd (gan gynnwys rhannau eraill o'r DU, fel Cernyw), drwy rwydweithiau ffurfiol ac anffurfiol yr UE, ac mae'n cyfleu ei gefnogaeth i randdeiliaid o Gymru sydd eisoes yn gwneud hyn. **(Tudalen 13)**

**Casgliad allweddol 2:** Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'n gryf cael dull ledled yr UE o ymdrin â'r polisi cydlyniant ac mae'n gwrthod y dadleuon o blaid ailwladoli rhan o'r polisi cydlyniant (neu'r polisi cyfan) gan nad yw hynny er lles pennaf Cymru na'r Undeb Ewropeaidd. **(Tudalen 17)**

**Casgliad allweddol 3:** Mae'r Pwyllgor yn ystyried bod consensws clir y dylid cadw'r cydweithio tiriogaethol yn y polisi cydlyniant yn y dyfodol, ac mae ganddo ddiddordeb mewn gweld sut y bydd y cysyniad o ranbarthau macro yn datblygu yn dilyn mentrau'r Môr Baltig a Basn y Danube, ac a fydd hyn yn rhoi cyfleoedd ar gyfer model yn y dyfodol sy'n cynnwys Cymru. **(Tudalen 21)**

**Casgliad allweddol 4:** Mae'r Pwyllgor yn credu y dylid archwilio ymhellach y meini prawf cymhwysedd a ddefnyddir i neilltuo cyllid, yn enwedig sut y dylid ystyried effaith yr argyfwng ariannol ac economaidd ar ranbarthau Ewrop o ran llunio mapiau cymhwysedd yn y dyfodol, yn enwedig os yw'r data Cynnyrch Mewnwladol Crynswth (CMC) rhanbarthol diweddaraf ar gyfer 2007, 2008 a 2009.

**(Tudalen 21)**

**Casgliad allweddol 5:** Mae'r Pwyllgor yn gweld gwerth mewn ymestyn y cynlluniau credyd a benthyca yn y cyfnod ar ôl 2013, fel ffordd o sicrhau 'cyllid etifeddol' ar gyfer gweithgareddau datblygu rhanbarthol yn y dyfodol. **(Tudalen 22)**

**Casgliad allweddol 6:** Mae'r Pwyllgor yn ail-bwysleisio'i gefnogaeth ar gyfer cadw Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) a Chronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) o fewn polisi cydlyniant yr UE, gan fod y cyfuniad o'r ddwy gronfa yn galluogi awdurdodau rhanbarthol a lleol i gefnogi amrywiaeth eang o gamau gweithredu ac ymyrryd ar lawr gwlad. **(Tudalen 22)**

**Casgliad allweddol 7:** Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r consensws eang a fynegwyd ynglŷn â blaenoriaethau polisi cydlyniant yr UE ar ôl 2013, sef y dylid mynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu rhanbarthau Ewrop yn awr ac yn y dyfodol, a tharo cydbwysedd rhwng ymateb i heriau brys yn dilyn yr argyfwng ariannol a sefydlu fframwaith strategol ar gyfer y tymor canolig a hwy. **(Tudalen 23)**

## **Argymhellion**

**Argymhelliad 1:** Mae'r Pwyllgor yn gwahodd Llywodraeth Cymru i gadarnhau'r safbwynt a nodwyd ganddi o ran y ddadl ar y polisi cydlyniant yn y DU ac yn enwedig ym Mrwsel, ac i ymateb ar frys i alwad gan randdeiliaid o Gymru iddi arwain hwyluso a chydgyssylltu'r broses hon yng Nghymru a Brwsel. **(Tudalen 12)**

**Argymhelliad 2:** Mae'r Pwyllgor yn galw ar y Comisiwn Ewropeaidd, yn ei gynigion ar gyfer olynnydd i Strategaeth Lisbon, i ddefnyddio strwythurau llywodraethu presennol rhaglenni rhanbarthol polisi cydlyniant yr UE i fynd i'r afael â'r "diffyg o ran llywodraethu" yn Strategaeth Lisbon. **(Tudalen 17)**

**Argymhelliad 3:** Gofyn i Lywodraeth Cymru egluro natur ymrwymiad Llywodraeth y DU ar gyllid trosiannol i Gymru o fewn y polisi cydlyniant ar ôl 2013. **(Tudalen 19)**

**Argymhelliad 4:** Perswadiwyd y Pwyllgor ynglŷn â gwerth cael "mecanwaith graddfa symudol" fel nodwedd sefydlog o'r polisi cydlyniant yn y dyfodol, ac mae'n gofyn i Lywodraeth Cymru chwarae rhan yn y broses o archwilio sut y gellid datblygu'r gwahanol syniadau sy'n cael eu trafod ym Mrwsel, fel yr Amcan Rhanbarthau Trosiannol (a

awgrymwyd gan Sachsen-Anhalt) neu gyfres o “geriau” datblygu economaidd (a awgrymwyd gan Graham Meadows), mewn ffordd a fyddai'n dod â budd i Gymru a'r Undeb Ewropeaidd yn ei gyfanrwydd.

**(Tudalen 19)**

**Argymhelliad 5:** Gofyn i Lywodraeth Cymru egluro'r camau gweithredu y rhagwelir y bydd eu hangen i sicrhau y caiff y strategaethau ymadael eu datblygu mewn ffordd amserol o fewn rhaglenni Cronfeydd Strwythurol 2007-13 yng Nghymru. **(Tudalen 24)**

**Argymhelliad 6:** Gofyn i Lywodraeth Cymru egluro sut y mae'r broses o brif-ffrydio EQUAL wedi ei chynnwys yn rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Cymru, gan gynnwys y defnydd a wnaed o gamau gweithredu trawswladol o fewn y rhaglenni Cydlyniant a Chystadleurwydd hyd yn hyn. **(Tudalen 25)**

**Argymhelliad 7:** Mae Tasglu Symleiddio'r Comisiwn Ewropeaidd yn darparu dull posibl ar gyfer rhanddeiliaid o Gymru i gyflwyno awgrymiadau ynglŷn â ffyrdd o wella'r modd y caiff y rhaglenni presennol eu gweinyddu a'u gweithredu. Gofynnir i Lywodraeth Cymru egluro sut y mae'n ymgysylltu â gwaith y tasglu hwn ym Mrwsel.

**(Tudalen 26)**

### **Camau gweithredu ar gyfer y Pwyllgor**

Bydd y Pwyllgor yn ysgrifennu at y Prif Weinidog i bwysleisio'r pryderon a godwyd gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, ac i ofyn i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ymdrin â'r mater hwn ar gyfer cyfnod y rhaglenni presennol, a bod hyn yn cael ei ystyried yn nhrefodaethau Llywodraeth Cymru ynghylch y polisi cydlyniant yn y dyfodol. **(Tudalen 24)**

# 1. Cefndir

---

1. Yn ei gyfarfod ar 20 Ionawr 2009, cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad i ddyfodol y polisi cydlyniant ar ôl 2013 a'r goblygiadau posibl i Gymru.
2. Ar gyfer y cyfnod 2007-2013, mae Cymru'n gymwys i gael tua £2 biliwn o gyllid Ewropeaidd o dan y rhaglenni Cronfeydd Strwythurol. Mae'r rhan fwyaf o'r arian hwn (dros 90%) yn mynd i raglen Cydgyfeirio Gorllewin Cymru a'r Cymoedd ac mae'r gweddill yn mynd i'r Rhaglen Cystadleurwydd a Chyflogaeth Rhanbarthol ar gyfer Dwyrain Cymru. Mae Cymru hefyd yn gymwys ar gyfer Cyllid Datblygu Economaidd Ewropeaidd (ERDF) o dan y rhaglenni cydweithrediad tiriogaethol, sydd ag ardaloedd 'daearyddol' wedi'u targedu, gan gynnwys rhaglen Trawsffiniol Iwerddon-Cymru. Yn olaf, mae Cymru'n gymwys i gymryd rhan mewn amrywiaeth o raglenni cydweithredu 'rhwng rhanbarthau' sydd ar gael i sefydliadau ledled yr UE, gan gynnwys Interreg 4C ac URBACT II.
3. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi dechrau ar y broses o baratoi ar gyfer y polisi cydlyniant newydd, a fydd yn cael ei roi ar waith o 2014 ymlaen, ac sy'n debygol o barhau hyd 2020, os bydd yr arfer presennol o gael cyfnodau cyllido saith mlynedd yn parhau.
4. Yn ystod 2007 a 2008, cynhaliodd y Comisiwn Ewropeaidd ymgynghoriadau ac astudiaethau wedi'u comisiynu i gael sail o dystiolaeth er mwyn datblygu cynigion ar gyfer y polisi newydd. Disgwylir iddo gyflwyno ei Bumed Adroddiad Cydlyniant yn yr hydref yn 2010, a fydd yn cyd-daro â chyhoeddi'r rheoliadau / cynigion deddfwriaethol drafft ar gyfer y polisi newydd. Bydd y cynigion hyn wedyn yn mynd drwy broses gwneud penderfyniadau yr UE, ac mae'n bosibl y cânt eu mabwysiadu yn 2012. Bydd y paratodau hyn yn digwydd o fewn dadl ehangach ar gyllideb yr UE ar gyfer 2014-2020, a faint o'r gyllideb honno ddylai fynd i'r polisi cydlyniant.
5. Cylch gorchwyl ymchwiliad y Pwyllgor oedd:

Meithrin dealltwriaeth o'r trafodaethau presennol am ddyfodol polisi cydlyniant yr Undeb Ewropeaidd ar ôl 2013, a cheisio dylanwadu ar y trafodaethau hynny.

Cyflwyno argymhellion i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar y safbwynt y dylid ei fabwysiadu yn y trafodaethau hyn er mwyn sicrhau'r manteision mwyaf i bobl Cymru.

Rhannu'r argymhellion hyn gyda sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd, yn arbennig y Comisiwn Ewropeaidd, rhwydweithiau'r Undeb Ewropeaidd a rhanddeiliaid allweddol eraill ym Mrwsel a Chymru.

6. Penderfynodd y Pwyllgor ganolbwyntio'n benodol ar y cwestiynau a'r materion a ganlyn:

Beth yw gweledigaeth Comisiynydd Hübner o ran cyfeiriad y polisi yn y dyfodol? I ba raddau y bydd polisi'r dyfodol yn dilyn patrwm y cyfnod presennol a'r amcanion o ran cydgyfeiriant, y gallu i gystadlu, cyflogaeth a chydweithredu? A yw hi'n rhagweld newid sylweddol?

Ym marn y Comisiynydd, sut fydd y polisi newydd yn mynd i'r afael â'r pedair prif her, sef globaleiddio, newid demograffig, newid hinsawdd ac ynni? A yw hi'n rhagweld y bydd blaenoriaethau newydd yn cael eu cynnwys o dan yr amcanion cyffredinol presennol?

Sut y bydd cydlyniant tiriogaethol yn rhan o hyn? A yw'r Comisiynydd yn rhagweld y bydd yn berthnasol i'r holl bolisi, neu'n ymwneud yn benodol â'r amcan ar gyfer cydweithredu?

A yw'r Comisiynydd yn rhagweld y bydd mwy o bwyslais ar raglenni ariannol megis JESSICA a JEREMIE yn y polisi cydlyniant newydd, a rôl ehangach i Fanc Buddsoddi Ewrop, yn lle'r dull traddodiadol o ariannu sy'n seiliedig ar grantiau?

Beth yw manteision penderfyniad Llywodraeth Cynulliad Cymru i alw am arian trosiannol a thrawswladol?

Beth yn union yw arian "trawswladol" yn nhyb Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac a oes ganddi ffigurau dangosol ar gyfer y swm y byddai'n gobeithio'i gael fel rhan o'r cytundeb hwn?

Pa mor ymrwymedig yw Llywodraeth y DU i amddiffyn safbwynt Llywodraeth y Cynulliad wrth gynnal trafodaethau ar y polisi newydd? Sut fydd yr elfen "drawswladol" yn cyd-fynd â gobaith

Llywodraeth y DU o gael polisi cydlyniant sydd wedi'i "ailwladoli", gan eithrio'r rhanbarthau tlotaf yng nghanol a dwyrain Ewrop?

Ym mha ran o fframwaith y polisi y dylid cynnwys datblygu gwledig? A ddylid ei ymgorffori unwaith eto yn y cronfeydd strwythurol neu a ddylai barhau ar wahân yn rhan o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin? A oes dewisiadau eraill?

Pa safbwyntiau eraill sy'n cael eu lleisio ym Mrwsel ac ymysg rhwydweithiau, rhanbarthau ac aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd? Sut y mae'r safbwyntiau hyn yn cymharu â rhai Llywodraeth Cynulliad Cymru a Llywodraeth y DU? A oes agweddau ar y safbwyntiau hyn sy'n ymddangos yn ddiddorol o bersbectif Cymreig?

7. Dechreuodd yr ymgynghoriad ar 23 Mawrth drwy glywed tystiolaeth gan Danuta Hübner<sup>1</sup>, y Comisiynydd dros Bolisi Rhanbarthol ar y pryd, ac, ers hynny, mae'r Pwyllgor wedi cynnal 15 o sesiynau tystiolaeth.

8. O ystyried y ffaith y bydd y drafodaeth ynglŷn â'r polisi cydlyniant yn y dyfodol yn digwydd rhwng 2010 a 2012, mae'r Pwyllgor wedi cytuno i drin yr ymgynghoriad hwn yn yr un modd â'i ymchwiliad i hawliau cleifion i gael gofal iechyd trawsffiniol, sef drwy fabwysiadu adroddiad interim ac ailystyried y ddogfen yn ddiweddarach, yn ystod 2010 a 2011.

---

<sup>1</sup> Ymddiswyddodd Danuta Hübner o'i swydd fel Comisiynydd ym mis Ebrill 2009 er mwyn sefyll yn etholiadau Senedd Ewrop. Fe'i hetholwyd yn Aelod o Senedd Ewrop ar gyfer Gwlad Pŵyl, ac ym mis Gorffennaf, fe'i dewiswyd i fod yn Gadeirydd Pwyllgor Materion Rhanbarthol Senedd Ewrop.

## 2. Tystiolaeth i'r ymchwiliad

---

9. Rhestrir manylion y sesiynau tystiolaeth a gynhaliwyd hyd yn hyn ar ddiwedd yr adroddiad hwn. Yn eu mysg, mae dwy sesiwn ar Strategaeth Lisbon a gynhaliwyd yn ystod cyfarfod y Pwyllgor ar 29 Medi 2009, a oedd yn uniongyrchol berthnasol i'r ymchwiliad hwn, o gofio'r cysylltiadau agos rhwng y polisi cydlyniant a Strategaeth Lisbon.

10. Nid yw'r tystion a ganlyn a restrwyd yn y papur cwmpasu gwreiddiol wedi rhoi tystiolaeth eto:

- Aelodau Cymru o Senedd Ewrop
- Y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig
- Academyddion (lefel Ewropeaidd a Chymreig)
- Comisiwn y Polisi ar Gydlyniant Tiriogaethol Pwyllgor y Rhanbarthau
- Pwyllgor Materion Rhanbarthol Senedd Ewrop

11. Disgwylir i'r Pwyllgor gymryd tystiolaeth bellach gan y tystion hyn a thystion eraill yn ddiweddarach yn ystod yr ymchwiliad.

### 3. Y prif faterion sy'n dod i'r amlwg

---

#### 3.1 Amseru: trafodaethau ym Mrwsel; llais cryf i Gymru

12. Mae'r Pwyllgor yn credu ei bod yn hanfodol bod Cymru'n chwarae rhan yn y ddadl ynghylch dyfodol y polisi cydlyniant yn ystod 2010-12. Yn benodol, bydd 2010 yn flwyddyn allweddol ar gyfer clywed llais Cymru ym Mrwsel, gan y bydd y Comisiwn Ewropeaidd yn paratoi ei safbwynt ar ddyfodol y polisi, a fydd yn cael ei gysylltu â'r trafodaethau ehangach am Gyllideb yr UE, a blaenoriaethau cyffredinol llywyddiaeth Barroso, gan gynnwys unrhyw strategaethau a fydd yn dilyn Strategaethau Lisbon a Gothenburg, a'r ddadl ynghylch dyfodol y Polisi Amaethyddol Cyffredin a chyllid ar gyfer datblygu gwledig.

13. Mae'r Pwyllgor yn croesawu galwad rhanddeiliaid o Gymru am ddull "tîm Cymru" ym Mrwsel yn y ddadl ynghylch dyfodol y polisi cydlyniant, i sicrhau bod llais cryf a chlr o Gymru yn y trafodaethau hyn.

14. Bu hon yn neges gyson drwy'r sesiynau tystiolaeth, gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Addysg Uwch Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn dangos eu cefnogaeth am ddull o weithio fel tîm, a hynny o dan arweinyddiaeth Llywodraeth Cymru yng Nghymru a Brwsel.

**Argymhelliad 1: Mae'r Pwyllgor yn gwahodd Llywodraeth Cymru i gadarnhau'r safbwynt a nodwyd ganddi o ran y ddadl ar y polisi cydlyniant yn y DU ac yn enwedig ym Mrwsel, ac i ymateb ar frys i alwad gan rhanddeiliaid o Gymru iddi arwain hwyluso a chydgysylltu'r broses hon yng Nghymru a Brwsel.**

15. Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth o waith a gwerth rhwydweithiau anffurfiol rhanbarthau'r UE, fel ROTOPI<sup>2</sup>, a sefydlwyd gan Swyddfa De-orllewin Lloegr y DU ym Mrwsel, Rhwydwaith y Rhanbarthau Trosiannol a sefydlwyd ar gyfer Dyddiau Agored Pwyllgor y Rhanbarthau 2009, yn ogystal â rhwydweithiau ffurfiol fel Cynhadledd y Rhanbarthau Morol Ymylol, y Rhwydwaith Ewropeaidd yn Erbyn Tlodi a BUSINESSEUROPE.

16. O ran hyrwyddo buddiannau Cymru ym Mrwsel yn y trafodaethau ar ddyfodol polisi cydlyniant yr UE, mae'r Pwyllgor hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd cydweithio'n agos â Senedd Ewrop, gan gynnwys Aelodau

---

<sup>2</sup> ROTOPI yw'r Round Table of Practitioners in Implementation

Cymru o Senedd Ewrop a Phwyllgorau perthnasol Senedd Ewrop; swyddogion y Comisiwn Ewropeaidd; yn ogystal â Phwyllgor y Rhanbarthau, gan gynnwys cynrychiolwyr Cymru ar y corff hwn.

**Casgliad allweddol 1: Mae'r Pwyllgor yn pwysleisio gwerth rhwydweithio ar lefel Ewropeaidd gyda rhanbarthau sy'n rhannu'r un meddylfryd (gan gynnwys rhannau eraill o'r DU, fel Cernyw), drwy rwydweithiau ffurfiol ac anffurfiol yr UE, ac mae'n cyfleu ei gefnogaeth i randdeiliaid o Gymru sydd eisoes yn gwneud hyn.**

### **3.2 Effaith yr argyfwng ariannol ac economaidd**

17. Er ei bod yn amhosibl rhagweld yn gywir cyflymder a chyfeiriad y newid mewn amgylchiadau economaidd ac ariannol, mae'r Pwyllgor yn cydnabod pwysigrwydd yr argyfwng ariannol ac economaidd presennol mewn perthynas â dylanwadu'r ddadl ym Mrwsel ynghylch dyfodol polisi cydlyniant yr UE.

18. Bu'r Pwyllgor yn craffu ar y mesurau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r sefyllfa yng Nghymru drwy Gynllun Adfer Economaidd Ewrop.

19. Cyfeiriodd nifer o dystion yn yr ymchwiliad at werth y rhaglenni rhanbarthol o ran galluogi cymryd camau'n gyflym ar lawr gwlad i ymateb i'r argyfwng economaidd.

20. Yn ei dystiolaeth, dywedodd Graham Meadows, Cyn Gyfarwyddwr Cyffredinol y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Bolisi Rhanbarthol :

“Due to the way in which the present programmes are to be carried out, it is quite clearly a benefit for Wales to have the programmes already ongoing and the money in the programmes to be promised, as it were, so that it is not taken away. It means that, if Wales can mobilise all of its best efforts and its considerable expertise in the matter, the Welsh Assembly Government and the National Assembly will be disposing of an instrument that could be quite important in helping Welsh citizens and businesses to overcome the recession.”<sup>3</sup>

21. Cyfeiriwyd at ddwy fenter, PROACT and REACT, a ariannwyd ar y cyd drwy raglenni rhanbarthol Cronfa Gymdeithasol Ewrop yng Nghymru, fel enghreifftiau o arfer da o ran sut i ymateb i'r argyfwng.

---

<sup>3</sup> Paragraff 12, Trawsgrifiad 12 Mai 2009

22. Yn ei dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor, cyfeiriodd Thomas Bender, Cyfarwyddwr dros dro'r Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Gyflogaeth, Materion Cymdeithasol a Chyfleoedd Cyfartal, yn benodol at werth ychwanegol Cronfa Gymdeithasol Ewrop, gan bwysleisio'r defnydd hyblyg a wnaed o'r Gronfa fel rhan o'r ymateb i'r argyfwng economaidd.

23. Yn olaf, pwysleisiodd nifer o'r tystion yr angen i fframio'r camau tymor byr a gymerwyd i ymateb i'r dirwasgiad economaidd o fewn cydestun y dull strategol hirdymor o ymdrin â datblygu rhanbarthol. Dywedodd Comisiynydd Hübner:

“...this crisis should not mean that we can forget about our major objectives. We agreed that we want to go towards innovation and a knowledge-based society, and towards the use of information and communications technology to generate better conditions for the development of entrepreneurship. I personally believe—I think that we are all on the same line here in the Commission—that, in a time of crisis, you must stick to those objectives and priorities, so that you leave the crisis in a stronger and more competitive state, which is what we need today.”<sup>4</sup>

### **3.3 Y rhesymeg ar gyfer polisi yr UE yn y dyfodol; gwrthod ailwladoli**

24. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod consensws eang ymysg y tystion ynghylch gwerth ychwanegol cael polisi cydlyniant ledled yr UE sydd ar gael (o bosibl) i bob rhanbarth yn yr UE, ac ynghylch gwrthod ailwladoli'r polisi. Mae'r Cronfeydd Strwythurol yn chwarae rhan hanfodol yn Strategaeth Lisbon ar lawr gwlad, yn ogystal â chynorthwyo'r broses o adfywio'r cymunedau tlotaf ledled Ewrop, mewn ffordd sy'n mynd y tu hwnt i fentrau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

25. Dywedodd yr Athro Danuta Hübner, cyn Gomisiynydd Polisi Rhanbarthol yr UE, wrth roi dystiolaeth i'r Pwyllgor ar 23 Mawrth 2009:

---

<sup>4</sup> Paragraff 19, Trawsgrifiad 23 Mawrth 2009

“I can say quite safely today that the dominating view is that we need a cohesion policy for the whole of Europe, for all of the European regions and territories.”<sup>5</sup>

26. Cyflwynwyd tystiolaeth i'r Pwyllgor gan nifer o dystion sy'n dangos buddiannau clir polisi cydlyniant yr UE ar lefel ranbarthol.

27. Mae'r buddiannau hyn yn cynnwys llywodraethu gwell, deialog uniongyrchol rhwng awdurdodau lleol a rhanbarthol a'r Comisiwn Ewropeaidd, ymgysylltu â'r holl randdeiliaid drwy ddefnyddio'r egwyddor partneriaeth, cyllid diogel a sefydlog am saith mlynedd, fframwaith strategol y cytunwyd arno (o lefel Ewropeaidd, i lawr i lefelau cenedlaethol a rhanbarthol) sy'n canolbwyntio ar amcanion tymor canolig i hirdymor, hyblygrwydd wrth ymateb i argyfyngau tymor byr, a'r posibilrwydd o rwydweithio a rhannu arfer da gyda rhanbarthau eraill yr UE.

28. Pwysleisiodd Addysg Uwch Cymru y berthynas agos rhwng y Cronfeydd Strwythurol a chronfeydd prif-ffrwd eraill yr UE, fel y Rhaglenni Ymchwil Fframwaith. Roedd yn pwysleisio'n benodol allu'r Cronfeydd Strwythurol i gynyddu capasiti, a'r anogaeth y mae'n ei roi i weithio amlddisgyblaethol a gweithio rhwng sefydliadau.

29. O ran ailwladoli'r polisi cydlyniant, cyfeiriodd Danuta Hübner a Graham Meadows at y lefel gyfyngedig o gefnogaeth ar gyfer y dull hwn ym Mrwsel:

“You can still find the voices here and there that suggest that we should limit this policy to the poorest regions, which usually implies the new member states. However, I think that these are the marginal voices that we hear from time to time. The dominating stream is that there should be full coverage of the entire European Union territory, because we also see that, in the richer regions, there are development restructuring problems.”<sup>6</sup>

30. Yn ei dystiolaeth, dywedodd Graham Meadows y dylid gofyn am eglurhad gan Lywodraeth y DU, yng nghyd-destun ailwladoli'r polisi yn y dyfodol, yn glŷn â'r hyn a fyddai'n cael ei gynnig i Gymru gan Lywodraeth y DU yn lle polisi ar lefel yr UE:

---

<sup>5</sup> Paragraff 8, Trawsgrifiad 23 Mawrth 2009

<sup>6</sup> Paragraff 37, Trawsgrifiad 23 Mawrth 2009

“...the big question, for which Wales would want the most precise answer possible, is: if you want to get rid of European Union cohesion policy or a part of it and present a mixture of European Union policy and national policy, what will the national policy be? In order for me—when I say ‘me’, I mean you—to decide whether or not re-nationalisation is a good thing, I need to know what the policy that we will be asked to implement, or will be able to implement, will be. You sometimes get an answer to that question, but if you keep pressing on the answer, you find that it tends to decompose slightly before you get to the bits that you really want to find out about.”<sup>7</sup>

31. Gofynnwyd y cwestiwn hwn i swyddogion Llywodraeth y DU o'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau, a ddywedodd na allent ateb y cwestiwn hwn ac y dylid ei ofyn i Adran Trysorlys Llywodraeth y DU. Fodd bynnag, roeddent yn derbyn bod y cwestiwn wedi cael ei gydnabod gan Lywodraeth y DU:

“Not being Treasury officials, we cannot say, ‘This is what would be provided’. We can only say that the issue is acknowledged and that any arrangements that were in place would have to take into account the settlement that you have at European level.”<sup>8</sup>

32. Aeth y swyddog ymlaen i ddisgrifio ‘gwarant y Trysorlys’ a sefydlwyd yn ystod y rownd flaenorol o drafodaethau (2004-05), fel rhywbeth penodol a oedd yn ynghlwm â'r trafodaethau hynny:

“In the previous round when we also put forward this proposal for reform, we made a form of what was then called the Treasury guarantee to what funding then would replace it if EU funding were to be removed entirely. That was very specific. That was tied to those negotiations, and any commitment would be tied to the eventual financial settlement - it has to take account of the financial position that the UK itself is in.”<sup>9</sup>

---

<sup>7</sup> Paragraff 44, Trawsgrifiad 12 Mai 2009

<sup>8</sup> Paragraff 135, Trawsgrifiad 3 Tachwedd 2009

<sup>9</sup> Paragraff 135, Trawsgrifiad 3 Tachwedd 2009

**Casgliad allweddol 2: Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'n gryf cael dull ledled yr UE o ymdrin â'r polisi cydlyniant ac mae'n gwrthod y dadleuon o blaid ailwladoli rhan o'r polisi cydlyniant (neu'r polisi cyfan) gan nad yw hynny er lles pennaf Cymru na'r Undeb Ewropeaidd.**

### **3.4 Llywodraethu a Strategaeth Lisbon**

33. Mae gan bolisi cydlyniant yr UE strwythur llywodraethu sefydledig ar sawl lefel, sy'n seiliedig ar yr egwyddor o bartneriaeth, ac mae'r Pwyllgor yn nodi bod tystion i'r ymchwiliad wedi canmol y ffordd gynhwysol y gweithredwyd rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru a'r DU.

34. Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth a oedd yn nodi bod Strategaeth Lisbon yn cael ei beirniadu'n gyson am fethu â chydabod rôl allweddol awdurdodau lleol a rhanbarthol o ran gweithredu a hyrwyddo'r strategaeth ar lawr gwlad. Mae Christine Chapman AC, aelod llawn y Cynulliad ar Bwyllgor y Rhanbarthau, yn ei hadroddiad drafft ar ddyfodol Strategaeth Lisbon, wedi cynnig gwneud defnydd o'r strwythurau llywodraethu yn y polisi cydlyniant, er mwyn mynd i'r afael a'r diffyg o ran llywodraethu.

35. Cyfeiriodd Rhwydwaith Gwrth-dlodi Ewrop a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru at bwysigrwydd yr egwyddor o bartneriaeth mewn rhaglenni rhanbarthol, fel ffordd o ymgysylltu â'r holl randdeiliaid allweddol, gan gynnwys y trydydd sector. Cafodd Cymru a'r DU eu canmol am y ffordd y maent yn gweithredu'r dull hwn.

**Argymhelliad 2: Mae'r Pwyllgor yn galw ar y Comisiwn Ewropeaidd, yn ei gynigion ar gyfer olynydd i Strategaeth Lisbon, i ddefnyddio strwythurau llywodraethu presennol rhaglenni rhanbarthol polisi cydlyniant yr UE i fynd i'r afael â'r "diffyg o ran llywodraethu" yn Strategaeth Lisbon.**

### **3.5 Arian trosiannol i Gymru**

36. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi dweud ei bod wedi sicrhau newid mewn polisi gan Lywodraeth y DU ar statws trosiannol Cymru ar ôl 2013, sef y bydd y swm y bydd Cymru'n ei gael yn lleihau'n raddol dros gyfnod y rhaglen.

37. Yn ei dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor, cyfeiriodd y Prif Weinidog at y mater o arian trosiannol i Gymru ar ôl 2013:

“We have shifted the UK Government policy from being that when this phase of cohesion policy is over on 31 December 2013 there should be no further European involvement in any part of the United Kingdom ... [W]e have already persuaded the UK Government to shift that policy in a way that minimises the disadvantage to Wales, so that, on the assumption that west Wales and the Valleys would cease to qualify under the 75 per cent rule, there would be transition funding. So, that is a key change that we already have got.”<sup>10</sup>

38. Mae tystiolaeth ysgrifenedig gan Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau Llywodraeth y DU yn cyfeirio at yr angen i ddileu'r Cronfeydd Strwythurol yn raddol yn yr Aelod Wladwriaethau mwyaf cyfoethog, ond nid yw'n cyfeirio'n benodol at 'arian trosiannol':

“...the priority should be that standard 'competitiveness and employment' funding is no longer available to richer Member States.”<sup>11</sup>

39. Pan ofynnodd y Pwyllgor beth yw safbwynt Llywodraeth y DU ar arian trosiannol, dywedodd un o'r swyddogion:

“What we have said in our paper is that standard competitiveness and employment funding should be phased out. Given that our policy is to phase out the funding in the richer Member States, we have always made it clear that that has implications for funding streams, and transitional arrangements would have to be considered. Wales has a convergence area at the moment, but, under the current system, it would have expected to move into some form of transition.”<sup>12</sup>

40. Pan ofynnwyd wedyn a oedd Llywodraeth y DU wedi penderfynu pa fodel penodol o arian trosiannol y mae'n ei ffafrio, dywedodd y swyddog:

“Not at this stage, no.”<sup>13</sup>

---

<sup>10</sup> Paragraff 43, Trawsgrifiad 30 Mehefin 2009

<sup>11</sup> Paragraff 7, Tystiolaeth Ysgrifenedig, EUR(3)-13-09(p.5) 3 Tachwedd 2009

<sup>12</sup> Paragraff 116, Trawsgrifiad 3 Tachwedd 2009

<sup>13</sup> Paragraff 153, Trawsgrifiad 3 Tachwedd 2009

### **Argymhelliad 3: Gofyn i Lywodraeth Cymru egluro natur ymrwymiad Llywodraeth y DU ar gyllid trosiannol i Gymru o fewn y polisi cydlyniant ar ôl 2013.**

#### **3.6 Ffurf y polisi yn y dyfodol**

41. Mae'r Pwyllgor yn cytuno y dylai'r polisi cydlyniant yn y dyfodol roi blaenoriaeth i ranbarthau tlotaf Ewrop. Fodd bynnag, mae hefyd yn cefnogi defnyddio 'dull tiriogaethol cytbwys' ar gyfer y polisi cydlyniant, a fyddai'n golygu bod holl ranbarthau'r UE yn cael rhywfaint o gymorth yn dibynnu ar yr angen.

42. Mae'r Pwyllgor wedi nodi'r syniadau a gyflwynwyd gan dystion ar gyfer mireinio ffurf y polisi cydlyniant ar ôl 2013, er mwyn osgoi'r hyn a ddisgrifiodd Graham Meadows fel "effaith greulon" codi'r lefel yn uwch na chynnyrch mewnwladol crynswth o 75%, sef y sefyllfa y mae Cymru'n debygol o'i hwynebu ar ôl 2013.

43. Cyflwynodd Saxony Anhalt syniadau ynghylch cael amcan parhaol ar gyfer y rhanbarthau trosiannol, drwy, o bosibl, gael categori o'r rhanbarthau sydd â CMC sydd rhwng 75% a 90% o gyfartaledd yr UE. Awgrymodd Graham Meadows y dylid cyflwyno amrywiaeth o "geriau" gwahanol i gynorthwyo datblygu economaidd, gyda'r posibilrwydd o gael tri neu bedwar categori parhaol o ranbarthau gan ddefnyddio cyfartaledd CMC yr UE fel y brif ffactor wrth benderfynu:

"...my suggestion would be a permanent system so that Wales or any other region that is growing in income, would transit through different systems. It would move through the systems and you would always have the security that you could plan your economic future; you would know where you were going to stand."<sup>14</sup>

44. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod angen dadl ynglŷn â'r mecanwaith mwyaf addas ar gyfer mynd i'r afael â hyn, ac mae'n edrych ymlaen at weld rhanddeiliaid o Gymru'n ymgysylltu yn y broses hon.

### **Argymhelliad 4: Perswadiwyd y Pwyllgor ynglŷn â gwerth cael "mecanwaith graddfa symudol" fel nodwedd sefydlog o'r polisi cydlyniant yn y dyfodol, ac mae'n gofyn i Lywodraeth Cymru chwarae rhan yn y broses o archwilio sut y gellid datblygu'r gwahanol syniadau sy'n cael eu trafod ym Mrwsel, fel yr Amcan**

---

<sup>14</sup> Paragraff 23, Trawsgrifiad 12 Mai 2009

**Rhanbarthau Trosiannol (a awgrymwyd gan Sachsen-Anhalt) neu gyfres o “geriau” datblygu economaidd (a awgrymwyd gan Graham Meadows), mewn ffordd a fyddai’n dod â budd i Gymru a’r Undeb Ewropeaidd yn ei gyfanrwydd.**

45. Cafwyd rhywfaint o drafodaeth hefyd ynglŷn â manteision cynnwys cymorth ar gyfer camau gweithredu arloesol o fewn y rhaglenni Cronfeydd Strwythurol, yn enwedig lle bydd hyn yn annog cydgysylltu rhwng gwahanol ranbarthau’r UE.

46. Hoffai’r Pwyllgor weld y dull hwn yn parhau i gael ei gynnwys yn y polisi cydlyniant yn y dyfodol, ac mae’n edrych ymlaen at gael trafodaeth ynglŷn â’r ffordd orau i gyflawni hyn, naill ai drwy Fenter Cymunedol ledled yr UE neu drwy gamau cydgysylltu trawswladol o fewn y rhaglenni rhanbarthol prif ffrwd.

### **3.7 Cydweithrediad y tiriogaethau**

47. Roedd consensws cryf ymysg y tystion ynglŷn â manteision cadw Amcan Cydgysylltu Tiriogaethol yn y dyfodol. Dywedodd Danuta Hübner, y cyn Gomisiynydd dros Bolisi Rhanbarthol, bod “galw clir” y dylai’r Comisiwn::

“...put more emphasis... towards this objective of having more inter-regional co-operation across national borders.”<sup>15</sup>

48. Cefnogwyd y farn hon gan swyddogion Llywodraeth y DU, a gyfeiriodd at werth ychwanegol clir rhaglenni INTERREG.

49. Croesawodd nifer o dystion yr egwyddor o greu rhanbarthau macro (fel strategaeth y Môr Baltig a Basn y Danube).

50. Cyfeiriodd Cynhadledd y Rhanbarthau Morol Ymylol at y ffaith bod perygl y gallai Cydgysylltu Tiriogaethol, drwy ddefnyddio’r dull o gael rhanbarthau macro, beryglu Amcan 2 (Amcan Cystadleurwydd). Cyfeiriodd hefyd at y pryderon ynglŷn â defnyddio rhanbarthau macro ar gyfer clustnodi arian ar sail daearyddiaeth yn y dyfodol, a’r ffaith bod diffyg llais rhanbarthol cryf yn y broses o ddatblygu rhanbarthau macro. Fodd bynnag, pwysleiswyd hefyd y ffaith na ellir mynd i’r afael â rhai heriau yn hawdd ar lefel ranbarthol nac ar lefel Ewropeaidd ac y gallai rhanbarthau macro, o bosibl, lenwi’r bwlch hwn:

---

<sup>15</sup> Paragraff 24, Trawsgrifiad 23 Mawrth 2009

“...the experience we have with our geographical commissions, particularly, is very interesting. Some problems cannot be solved at the global European level, nor at the single level of each region. This type of macro region is very good for some things, like the protection of each sea of Europe, the organisation of transport, fisheries and so on.”<sup>16</sup>

51. Mynegodd swyddogion Llywodraeth y DU bryderon ynglŷn â'r ffaith y gellid defnyddio'r rhanbarthau macro fel sail ar gyfer:

“...a sort of artificial carving up of the European Union into various zones. In terms of income disparities, the benchmark should very much still be at a European level. In terms of other macro regional strategies, the principal point that will guide us is what the added value of doing this at a European level would be.”<sup>17</sup>

**Casgliad allweddol 3: Mae'r Pwyllgor yn ystyried bod consensws clir y dylid cadw'r cydweithio tiriogaethol yn y polisi cydlyniant yn y dyfodol, ac mae ganddo ddiddordeb mewn gweld sut y bydd y cysyniad o ranbarthau macro yn datblygu yn dilyn mentrau'r Môr Baltig a Basn y Danube, ac a fydd hyn yn rhoi cyfleoedd ar gyfer model yn y dyfodol sy'n cynnwys Cymru.**

### **3.8 Cyfnodau cyfeirio cynnyrch mewnwladol crynswth a meini prawf eraill**

52. Roedd rhywfaint o drafodaeth ynglŷn â'r defnydd traddodiadol o gyfnod cyfeirio Cynnyrch Mewnwladol Crynswth dros dair blynedd i benderfynu pa ranbarthau fydd yn gymwys ar gyfer y categorïau gwahanol o gymorth.

**Casgliad allweddol 4: Mae'r Pwyllgor yn credu y dylid archwilio ymhellach y meini prawf cymhwysedd a ddefnyddir i neilltuo cyllid, yn enwedig sut y dylid ystyried effaith yr argyfwng ariannol ac economaidd ar ranbarthau Ewrop o ran llunio mapiau cymhwysedd yn y dyfodol, yn enwedig os yw'r data Cynnyrch Mewnwladol Crynswth (CMC) rhanbarthol diweddaraf ar gyfer 2007, 2008 a 2009.**

---

<sup>16</sup> Paragraff 35, Trawsgrifiad 3 Tachwedd 2009

<sup>17</sup> Paragraff 125, Trawsgrifiad 3 Tachwedd 2009

53. Mae cwestiwn ehangach, a dim ond cyffwrdd arno a wnaeth y Pwyllgor yn yr ymchwiliad hwn, ynglŷn â defnyddio meini prawf eraill i benderfynu pa ranbarthau sy'n gymwys - fel diweithdra, lefelau tlodi, dangosyddion allgau cymdeithasol ac ati - y gellid eu hystyried yng ngham nesaf ymchwiliad y Pwyllgor.

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod barn gadarnhaol gyffredinol ynglŷn â gwerth ychwanegol y dulliau cyllid credyd a benthyca newydd (fel JEREMIE a JESSICA) a gyflwynwyd o dan y rhaglenni presennol.

**Casgliad allweddol 5: Mae'r Pwyllgor yn gweld gwerth mewn ymestyn cynlluniau credyd a benthyca yn y cyfnod ar ôl 2013, fel ffordd o sicrhau 'cyllid etifeddol' ar gyfer gweithgareddau datblygu rhanbarthol yn y dyfodol.**

### **3.9 Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Chronfa Gymdeithasol Ewrop fel rhan o bolisi cydlyniant yr UE**

54. Mae'r Pwyllgor yn nodi gwerth Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) a Chronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) fel elfennau allweddol o bolisi cydlyniant yr UE, drwy alluogi cefnogi amrywiaeth o gamau gwahanol gan raglenni rhanbarthol.

55. Bu galwadau, er enghraifft gan CLILC yn ei thystiolaeth, i greu offerynnau ariannu unigol i symleiddio'r broses o weithredu'r polisi ar lawr gwlad. Er bod y Pwyllgor yn cydymdeimlo â'r farn hon, mewn gwirionedd, mae'n annhebygol y gellir mabwysiadu newidiadau o'r fath yn hawdd ym Mrwsel, o gofio'r ymrwymadau amrywiol o dan y Cytuniad sy'n sail i nifer o offerynnau ariannu.

**Casgliad allweddol 6: Mae'r Pwyllgor yn ail-bwysleisio'i gefnogaeth ar gyfer cadw Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) a Chronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) o fewn polisi cydlyniant yr UE, gan fod y cyfuniad o'r ddwy gronfa yn galluogi awdurdodau rhanbarthol a lleol i gefnogi amrywiaeth eang o gamau gweithredu ac ymyrryd ar lawr gwlad.**

### **3.10 Blaenoriaethau'r polisi yn y dyfodol**

56. Mae tystiolaeth bod lefel uchel o gonsensws ynglŷn â'r heriau a'r materion y mae'n rhaid mynd i'r afael â hwy, gan gynnwys: newid yn yr hinsawdd; symud tuag at economi mwy cynaliadwy gyda phwyslais penodol ar economi werdd; pwysigrwydd addysg, dysgu gydol oes, a buddsoddi mewn sgiliau lefel uwch; ailhyfforddi gweithwyr; a mynd i'r afael â diweithdra - gan gynnwys diweithdra tymor byr a diweithdra strwythurol, gan ganolbwyntio'n benodol ar bobl ifanc; buddsoddi

mewn gwybodaeth, arloesed a chystadleurwydd busnesau; a mynd i'r afael â'r her ehangach o newidiadau demograffig. Gellir grwpio'r rhain yn fras fel blaenoriaethau ar gyfer cynaliadwyedd, cystadleurwydd a chyfalaf dynol.

**Casgliad allweddol 7: Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r consensws eang a fynegwyd ynglŷn â blaenoriaethau polisi cydlyniant yr UE ar ôl 2013, sef y dylid mynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu rhanbarthau Ewrop yn awr ac yn y dyfodol, a tharo cydbwysedd rhwng ymateb i heriau brys yn dilyn yr argyfwng ariannol a sefydlu fframwaith strategol ar gyfer y tymor canolig a hwy.**

57. Mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at gael trafodaethau pellach ar sut y bydd cydlyniant tirioogaethol yn cael ei gynnwys yn y polisi yn y dyfodol, ac mae'n chwilio am sicrwydd y rhoddir y sylw priodol i ardaloedd gwledig yn y polisi, yn ogystal ag ystyried buddiannau rhannau trefol a mwy poblog Ewrop.

58. Bydd y Pwyllgor yn dymuno ystyried y trafodaethau sy'n digwydd ar yr un pryd ar ddyfodol y Polisi Amaethyddol Cyffredin a chyllid ar gyfer datblygu gwledig yn ystod cam nesaf ei ymchwiliad.

### **3.11 Cynhwysiant cymdeithasol**

59. Archwiliodd y Pwyllgor rôl y polisi cydlyniant wrth hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol gyda thystion, gan gynnwys y rheini o Rwydwaith Gwrth-dlodi Ewrop (EAPN) a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC). Mae'r trydydd sector yng Nghymru yn gyflogwr mawr sydd â rhan hanfodol i'w chwarae, ac mae'r Pwyllgor yn nodi'r pryderon ynglŷn â'r ffordd y gallai'r polisi cydlyniant yn y dyfodol effeithio ar ei waith. Bydd y pwyslais a roddir ar gynhwysiant cymdeithasol wrth ddatblygu'r polisi cydlyniant yn y dyfodol yn hanfodol, er enghraifft y graddau y bydd y trydydd sector yn rhan o lunio'r polisi, gan gynnwys dangosyddion i ddiogelu rhag tlodi, er mwyn sicrhau y bydd y grwpiau sydd wedi eu hallgáu fwyaf yn cael eu cyrraedd.

60. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r pryderon penodol a fynegwyd gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ynghylch y defnydd o gaffael yn hytrach na chynlluniau grant cyffredinol ar gyfer rhaglenni rhanbarthol 2007-13 yng Nghymru.

**Camau i'r Pwyllgor eu cymryd: Bydd y Pwyllgor yn ysgrifennu at y Prif Weinidog i bwysleisio'r pryderon a godwyd gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, ac i wneud cais i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ymdrin â'r mater hwn ar gyfer cyfnod y rhaglenni presennol, ac y dylid ystyried hyn yn nhrefodaethau Llywodraeth Cymru ynghylch y polisi cydlyniant yn y dyfodol.**

61. Cododd CGGC y mater o sut y gellir prif-ffyrddio prosiectau a mentrau llwyddiannus a ariennir gan yr UE yn briodol o fewn cyllid statudol ar lefel y DU erbyn 2013 a'u gwneud yn gynaliadwy. Mae'r Pwyllgor yn credu bod hwn yn fater tyngedfennol i awdurdodau lleol, y sector addysg, yn ogystal â'r trydydd sector yng Nghymru.

**Argymhelliad 5: Gofyn i Lywodraeth Cymru egluro'r camau gweithredu y rhagwelir y bydd eu hangen i sicrhau y caiff y strategaethau ymadael eu datblygu mewn ffordd amserol o fewn rhaglenni Cronfeydd Strwythurol 2007-13 yng Nghymru.**

62. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r amrywiaeth barn rhwng Cyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Gyflogaeth, Materion Cymdeithasol a Chyfleoedd Cyfartal y Comisiwn Ewropeaidd a Rhwydwaith Gwrth-dlodi Ewrop ynglŷn â'r Menter Cymunedol EQUAL.<sup>18</sup>

63. Yn ei dystiolaeth lafar, dywedodd cynrychiolydd y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Gyflogaeth ei bod wedi troi'i chefn ar y fenter EQUAL oherwydd:

“...it was seen as a very cumbersome initiative that had, in comparison to the amounts that we could invest, quite high administrative costs both on the commission side and on the member-state side. It definitely had a lot of advantages and we tried to bring over the advantages into the current mainstream programmes of the ESF.”<sup>19</sup>

64. Roedd gan Rwydwaith Gwrth-dlodi Ewrop farn wahanol:

“This is the first time that I have heard this argument presented and, indeed, the Commission's own evaluations of EQUAL speak glowingly of its achievement, its value and its low cost.

---

<sup>18</sup> Roedd EQUAL yn fenter gymunedol yn rhaglen Cronfeydd Srwythurol 2000-06 a oedd yn ceisio hyrwyddo ffyrdd newydd o gael gwared ar bob math o wahaniaethu ac anghydraddoldebau yn y farchnad lafur.

<sup>19</sup> Paragraff 45, Trawsgrifiad 13 Hydref 2009

So, this is an argument that I have not heard before. We have not heard that EQUAL was a costly or expensive programme, and this would strike me as retrospective justification for inaction.”<sup>20</sup>

65. Bu Rhwydwaith Gwrth-dlodi Ewrop hefyd yn feirniadol o’r diffyg gweithredu ledled yr UE o ran prif-ffyrddio EQUAL o fewn y rhaglenni rhanbarthol newydd ar gyfer 2007-13.

**Argymhelliad 6: Gofyn i Lywodraeth Cymru egluro sut y mae’r broses o brif-ffyrddio EQUAL wedi ei chynnwys yn rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Cymru, gan gynnwys y defnydd a wnaed o gamau gweithredu trawswladol o fewn y rhaglenni Cydlyniant a Chystadleurwydd hyd yn hyn.**

### 3.12 Yr agenda symleiddio

66. Dylai gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd adnoddau fod yn sail i’r paratodau ar gyfer y polisi yn y dyfodol, ac, i’r diben hwn, mae’r Pwyllgor yn galw am dargedau a dangosyddion, a gwaith monitro a gwerthuso, sydd wedi’u diffinio’n well ar gyfer y dyfodol.

67. Beirniadodd y Rhwydwaith y gwaith o fonitro a gwerthuso o fewn y Cronfeydd Strwythurol, yn arbennig o ran yr agenda cynhwysiant cymdeithasol:

“One of the main weaknesses of the structural funds at the moment is the poor system of monitoring, evaluation and indicators”<sup>21</sup>

68. Dywedodd mai’r rhesymau allweddol dros hyn yw’r ffaith nad yw cyrff anlywodraethol yn chwarae digon o ran wrth fonitro pwyllgorau a’r broses o gynnal gwerthusiadau. Er hynny, pwysleisiodd y ffaith bod gan Gymru a Phrydain enw da am gynnwys y trydydd sector yn y broses o reoli a chyflenwi rhaglenni’r Cronfeydd Strwythurol.

69. Cyfeiriodd Comisiynydd Hübner at waith y Tasglu Symleiddio a sefydlwyd ym Mrwsel ac sy’n cynnwys arbenigwyr o’r Aelod Wladwriaethau a swyddogion y Comisiwn, gan bwysleisio gwaith pwysig y grŵp hwn a’i effaith ar sut y caiff y strwythurau cyflenwi eu llunio ar gyfer y polisi ar ôl 2013.

---

<sup>20</sup> Paragraff 127, Trawsgrifiad 13 Hydref 2009

<sup>21</sup> Paragraff 129, Trawsgrifiad 13 Hydref 2009

**Argymhelliad 7: Mae Tasglu Symleiddio'r Comisiwn Ewropeaidd yn darparu dull posibl ar gyfer rhanddeiliaid o Gymru i gyflwyno awgrymiadau ynglŷn â ffyrdd o wella'r modd y caiff y rhaglenni presennol eu gweinyddu a'u gweithredu. Gofynnir i Lywodraeth Cymru egluro sut y mae'n ymgysylltu â gwaith y tasglu hwn ym Mrwsel.**

## Tystion

---

Cyflwynodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgrifiadau o'r holl sesiynau o dystiolaeth lafar i'w gweld yn llawn yn <http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-eur-home.htm>

23 Mawrth 2009

Danuta Hübner	Y Comisiynodd dros Bolisi Rhanbarthol
Peter Berkowitz	Y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Bolisi Rhanbarthol
Guy Flament	Y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Bolisi Rhanbarthol
Rachel Lancry	Y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Bolisi Rhanbarthol

12 Mai 2009

Graham Meadows	Cyn Gyfarwyddwr Cyffredinol dros Bolisi Rhanbarthol
Y Cynghorydd Andrew Mitchell	Cyngor Cernyw
Eleni Marianou	Cyfarwyddwr Swyddfa De-orllewin y DU ym Mrwsel
Emily Henderson	Swyddog Polisi Cynorthwyol (Ewrop), Swyddfa Cernyw

16 Mehefin 2009

Thomas Wobben	Cynrychiolydd Saxony-Anhalt ym Mrwsel
Steve Thomas	Prif Weithredwr, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Simon Pascoe	Pennaeth Swyddfa Ewrop, Cymdeithas

Llywodraeth Leol Cymru ym Mrwsel

Neville Davies Cynghorwr Ewropeaidd Cymdeithas  
Llywodraeth Leol Cymru a Phennaeth Polisi  
Ewropeaidd a Chyllid Allanol, Cyngor Sir  
Gaerfyrddin

30 Mehefin 2009

Patrick Brière Cadeirydd Gweithgor Polisi Rhanbarthol  
BUSINESSEUROPE

Rhodri Morgan AC Y Prif Weinidog

Philip Bird Pennaeth Ysgrifenyddiaeth Polisi yr UE, yr  
Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol

Robert Parry Dirprwy Bennaeth Ysgrifenyddiaeth Polisi  
yr UE

Dafydd Munro Swyddog Polisi, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd  
Cymru (WEFO)

29 Medi 2009

Christine Chapman Cynrychiolydd y Cynulliad ar Bwyllgor y  
AC Rhanbarthau

Ieuan Wyn Jones AC Y Dirprwy Brif Weinidog

Phillip Bird Pennaeth Ysgrifenyddiaeth Polisi yr UE

Cathy Presland Pennaeth Cynllunio a Strategaeth, WEFO

Yr Athro Noel Lloyd Cadeirydd Addysg Uwch Cymru ac Is-  
ganghellor Prifysgol Aberystwyth

Greg Walker Cynghorydd Polisi, Addysg Uwch Cymru

Paul Harris Pennaeth Swyddfa Addysg Uwch Cymru  
ym Mrwsel

13 Hydref 2009

Mr Thomas Bender Cyfarwyddwr dros dro y Gyfarwyddiaeth

	Gyffredinol dros Gyflogaeth, Materion Cymdeithasol a Chyfleoedd Cyfartal
Georges Kintzele	Pennaeth yr Uned sy'n gyfrifol am raglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn y DU
Renate Schopf	Y Swyddog Desg sy'n gyfrifol am raglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop yng Nghymru
Phil Fiander	Cyfarwyddwr Menter ac Adfywio, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Alice Greenlees	Uwch Swyddog Polisi, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Ian Davy	Prif Swyddog, Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful
Mal Emerson	Cynllun Hyfforddi i Ddatblygu Sgiliau Cyflogaeth (STRIDES) Sandfields Newydd Aberafan
Brian Harvey	Ymchwilydd Cymdeithasol, Rhwydwaith Gwrth-dlodi Ewrop (Iwerddon)
3 Tachwedd 2009	
Xavier Gisard	Ysgrifennydd Cyffredinol, Cynhadledd y Rhanbarthau Morol Ymylol (CPMR)
Julie Gourden	Cyfarwyddwr - yn gyfrifol am bolisi cydlyniant, Cynhadledd y Rhanbarthau Morol Ymylol
Neil Bond	Arweinydd Tîm, Cronfeydd Strwythurol, yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau
Chris Kirby	Pennaeth Gweithredu'r Cronfeydd Strwythurol, yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau

## Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig

---

Cyflwynodd yr unigolion a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn <http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-eur-home.htm>

<i>Enw</i>	<i>Sefydliad</i>	<i>Cyfeirnod</i>
Gwasanaeth y Pwyllgorau	Cynulliad Cenedlaethol Cymru	<a href="#">EUR(3)-01-09 : Papur 2</a>
Llywodraeth Cymru	Llywodraeth Cymru	<a href="#">EUR(3)-04-09 : Papur 4</a>
Katie Cavell	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru	<a href="#">EUR(3)-04-09 : Papur 5</a>
Graham Meadows	Cyn Gyfarwyddwr Cyffredinol dros Bolisi Rhanbarthol	<a href="#">EUR(3)-07-09 : Papur 1</a>
Y Cynghorydd Andrew Mitchell	Cyngor Cernyw	<a href="#">EUR(3)-07-09 : Papur 2</a>
Eleni Marianou	Cyfarwyddwr Swyddfa De-orllewin y DU ym Mrwsel	<a href="#">EUR(3)-07-09 : Papur 2</a>
Emily Henderson	Swyddog Polisi Cynorthwyol (Ewrop), Swyddfa Cernyw	<a href="#">EUR(3)-07-09 : Papur 2</a>
Thomas Wobben	Cynrychiolydd Saxony-Anhalt ym Mrwsel	<a href="#">EUR(3)-08-09 : Papur 1</a>
Steve Thomas	Prif Weithredwr, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru	<a href="#">EUR(3)-08-09 : Papur 2</a>
Simon Pascoe	Pennaeth Swyddfa Ewrop Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ym Mrwsel	<a href="#">EUR(3)-08-09 : Papur 2</a>
Neville Davies	Cynghorwr Ewropeaidd	<a href="#">EUR(3)-08-09 :</a>

	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a Phennaeth Polisi Ewropeaidd a Chyllid Allanol, Cyngor Sir Gaerfyrddin	<a href="#">Papur 2</a>
Patrick Brière	Cadeirydd Gweithgor Polisi Rhanbarthol BUSINESSEUROPE	<a href="#">EUR(3)-09-09 :</a> <a href="#">Papur 1</a>
Rhodri Morgan AC	Y Prif Weinidog	<a href="#">EUR(3)-09-09 :</a> <a href="#">Papur 2</a>
Philip Bird	Pennaeth Ysgrifenyddiaeth Polisi yr UE, yr Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol	<a href="#">EUR(3)-09-09 :</a> <a href="#">Papur 2</a>
Robert Parry	Dirprwy Bennaeth Ysgrifenyddiaeth Polisi yr UE	<a href="#">EUR(3)-09-09 :</a> <a href="#">Papur 2</a>
Dafydd Munro	Swyddog Polisi, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru	<a href="#">EUR(3)-09-09 :</a> <a href="#">Papur 2</a>
Christine Chapman AC	Cynrychiolydd y Cynulliad ar Bwyllgor y Rhanbarthau	<a href="#">EUR(3)-11-09 :</a> <a href="#">Papur 1</a>
Ieuan Wyn Jones AC	Y Dirprwy Brif Weinidog	<a href="#">EUR(3)-11-09 :</a> <a href="#">Papur 2</a>
Phillip Bird	Pennaeth Ysgrifenyddiaeth Polisi yr UE	<a href="#">EUR(3)-11-09 :</a> <a href="#">Papur 2</a>
Cathy Presland	Pennaeth Cynllunio a Strategaeth, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru	<a href="#">EUR(3)-11-09 :</a> <a href="#">Papur 2</a>
Yr Athro Noel Lloyd	Cadeirydd Addysg Uwch Cymru ac Is-ganghellor Prifysgol Aberystwyth	<a href="#">EUR(3)-11-09 :</a> <a href="#">Papur 3 :</a> <a href="#">Dyfodol y</a> <a href="#">Polisi</a> <a href="#">Cydlyniant</a>

Greg Walker	Cynghorydd Polisi, Addysg Uwch Cymru	<a href="#">EUR(3)-11-09 : Papur 3 : Dyfodol y Polisi Cydlyniant</a>
Paul Harris	Pennaeth Swyddfa Addysg Uwch Cymru ym Mrwsel	<a href="#">EUR(3)-11-09 : Papur 3 : Dyfodol y Polisi Cydlyniant</a>
Mr Thomas Bender	Cyfarwyddwr dros dro y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Gyflogaeth, Materion Cymdeithasol a Chyfleoedd Cyfartal	<a href="#">EUR(3)-12-09 : Papur 1</a>
Georges Kintzele	Pennaeth yr Uned sy'n gyfrifol am raglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn y DU	<a href="#">EUR(3)-12-09 : Papur 1</a>
Renate Schopf	Y Swyddog Desg sy'n gyfrifol am raglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop yng Nghymru	<a href="#">EUR(3)-12-09 : Papur 1</a>
Phil Fiander	Cyfarwyddwr Menter ac Adfywio, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru	<a href="#">EUR(3)-12-09 : Papur 2</a>
Alice Greenlees	Uwch Swyddog Polisi, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru	<a href="#">EUR(3)-12-09 : Papur 2</a>
Ian Davy	Prif Swyddog, Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful	<a href="#">EUR(3)-12-09 : Papur 2</a>
Mal Emerson	Cynllun Hyfforddi i Ddatblygu Sgiliau Cyflogaeth (STRIDES)	<a href="#">EUR(3)-12-09 : Papur 2</a>

	Sandfields Newydd Aberafan	
Brian Harvey	Ymchwilydd Cymdeithasol, Rhwydwaith Gwrth-dlodi Ewrop (Iwerddon)	<a href="#">EUR(3)-12-09 :</a> <a href="#">Papur 3</a>
Xavier Gisard	Ysgrifennydd Cyffredinol, Cynhadledd y Rhanbarthau Morol Ymylol (CPMR)	<a href="#">EUR(3)-13-09 :</a> <a href="#">Papur 1</a> <a href="#">EUR(3)-13-09 :</a> <a href="#">Papur 2</a> <a href="#">EUR(3)-13-09 :</a> <a href="#">Papur 3</a>
Julie Gourden	Cyfarwyddwr – yn gyfrifol am bolisi cydlyniant, Cynhadledd y Rhanbarthau Morol Ymylol	<a href="#">EUR(3)-13-09 :</a> <a href="#">Papur 1</a> <a href="#">EUR(3)-13-09 :</a> <a href="#">Papur 2</a> <a href="#">EUR(3)-13-09 :</a> <a href="#">Papur 3</a>
Neil Bond	Arweinydd Tîm, Cronfeydd Strwythurol, yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau	<a href="#">EUR(3)-13-09 :</a> <a href="#">Papur 5</a>
Chris Kirby	Pennaeth Gweithredu'r Cronfeydd Strwythurol, yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau	<a href="#">EUR(3)-13-09 :</a> <a href="#">Papur 5</a>
Gwasanaeth y Pwyllgorau	Cynulliad Cenedlaethol Cymru	EUR(3)-13-09 : Papur 6 (Papur preifat)
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru	<a href="#">EUR(3)-13-09 :</a> <a href="#">Papur 9</a>